RHONDDA CYNON TAF

Annwyl Rieni/Gwarcheidwaid,

Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd cyllid gwerth £350,000 yn cael ei ddarparu i'r Eisteddfod Genedlaethol er mwyn caniatáu i deuluoedd cymwys o aelwydydd incwm isel ddod i'r ŵyl yn Rhondda Cynon Taf.

Mae hyn y golygu bydd tocynnau mynediad a thalebau bwyd ar gael ar gyfer hyd at 18,400 o bobl leol cymwys pan fydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal ym Mharc Coffa Ynysangharad, Pontypridd, rhwng 3 a 10 Awst 2024.

Yr Eisteddfod Genedlaethol yw'r ŵyl ddiwylliannol fwyaf yn Ewrop, a chaiff ei chynnal mewn lleoliadau gwahanol ledled Cymru bob blwyddyn. Mae modd i chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr Eisteddfod ac am beth i'w ddisgwyl drwy fwrw golwg ar www.eisteddfod.cymru.

Ar gyfer y teuluoedd sydd â diddordeb mewn ymgeisio am docyn mynediad a thaleb fwyd am ddim, bydd y broses ddyrannu'n blaenoriaethu:

- **Teuluoedd sydd â disgyblion 6-16 oed ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fel sydd wedi'i nodi ar wefan RhCT –** https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/SchoolsandLearning/Freeschoolmeals.aspx (Nodwch: bydd unrhyw un sy'n 5 oed neu iau cyn 11 Awst 2024 eisoes yn gymwys i gael mynediad am ddim i'r Eisteddfod Genedlaethol).

- **Teuluoedd sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn unol â'r hyn sydd wedi'i nodi ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) (https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-2019-dadansoddiad-o-ardaloedd-mewn-amddifadedd-hirsefydlog).**

Er mwyn cofrestru eich diddordeb, llenwch y ffurflen yma ar-lein – www.rctcbc.gov.uk/TocynTeuluEisteddfodRhCT.

**Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru eich diddordeb yw dydd Gwener 24 Mai 2024.**

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau neu pe hoffech chi gymorth wrth gwblhau'r ffurflen, e-bostiwch Eisteddfod2024@rctcbc.gov.uk.

**NODWCH: Fydd llenwi'r ffurflen ddim yn gwarantu y byddwch chi'n derbyn tocyn mynediad a thaleb bwyd am ddim. Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn clywed gan yr Eisteddfod erbyn diwedd mis Gorffennaf.**

Yn gywir,

**Gaynor Davies**
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**

**Louise Davies**
**Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned**